CYFARFOD GRŴP IECHYD A DIOGELWCH APCAP **20 Hydref 2026** 15:15 (Cyfarfod wedi'i aildrefnu o 13 Hydref 2026)	
Yn bresennol: Tegryn Jones (TG), Sara Morris (SM), Joy Arkley (JA), Libby Taylor (LT), Michelle Webber (MW), Tom Iggleden (TI), James Parkin (JP), Kate Attrill (KA), Kate Gravell (KG), Emma Gladstone (EG) Andrew Muskett (AM), Chris Taylor (CJ)	
1	**Ymddiheuriadau:** Chris Taylor (CT) Steve Garvey (SG)
2	**Cytuno ar Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2026.** **Materion yn Codi** **Offer Cymorth Cyntaf mewn Cerbydau Fflyd** – Roedd y mater hwn wedi'i ddilyn ymhellach gyda'r Weinyddiaeth Fflyd, a bellach mae gan bob cerbyd becyn cymorth cyntaf. **Diffoddydd Tân** mewn cerbydau – JA i gyflwyno adroddiad i'r Tîm Rheoli. **Llofnodi Asesiadau Risg** - Pawb i gwblhau'r Asesiadau Risg sy'n weddill. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2026.
3	**Damweiniau a Digwyddiadau 1 Gorffennaf – 30ain Medi 2026** Cyflwynwyd adroddiad i'r Heddlu am y 3 achos o ddifrod troseddol yng Nghastell Caeriw. Roedd nifer yr achosion o ddifrod damweiniol i gerbydau fflyd wedi gostwng. Roedd rhywfaint o bryder ynghylch y digwyddiad yng Nghastell Caeriw ar yr 8fed o Awst lle roedd aelod o'r cyhoedd wedi siarad ag aelod o'r staff mewn modd ymosodol. Roedd nifer y digwyddiadau a adroddwyd wedi gostwng. **Camau gweithredu**: Pawb i sicrhau bod pob digwyddiad yn cael ei adrodd a hynny'n brydlon.
4.	**Iechyd, Salwch a Llesiant Staff** Nid oedd achos o salwch tymor hir ar y pryd. Roedd ffigurau salwch tymor byr yn uwch yn 2026 nag yn 2025. Nid oedd yn ymddangos bod hyn i'w briodoli i unrhyw dueddiadau sylfaenol. Roedd AD yn parhau i fonitro'r lefelau salwch gan weithio'n agos gyda'r rheolwyr llinell a'r gweithwyr yn unol â'r polisi absenoldeb salwch tymor byr. **Camau Gweithredu:** Adnoddau Dynol.
5	**Hyfforddiant a Datblygu** Roedd y nifer o staff oedd angen hyfforddiant diweddaru cylchol yn gallu camliwio'r ffigurau. Hefyd, gall unrhyw un sydd ar absenoldeb mamolaeth neu ar gyfnod o absenoldeb arall a gymeradwywyd, effeithio ar y cyfraddau cwblhau hyfforddiant. **Camau gweithredu**: Bydd yr Adran Adnoddau Dynol yn parhau i fonitro'r cyfraddau cwblhau hyfforddiant, ac yn cysylltu â'r rheolwyr llinell ac unigolion yn ôl y gofyn.

6	**Matrics Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch** Yn dal i aros am ymateb gan un Ganolfan Ymwelwyr. Erbyn y cyfarfod nesaf bydd yr anghenion hyfforddiant wedi'u casglu, eu blaenoriaethu, a'u costio. Bydd pob Pennaeth Adran ac Arweinydd Tîm yn cael rhan o'r matrics hyfforddiant yn ôl eu hangen. **Camau Gweithredu:** Adnoddau Dynol.
7	**Cynllun Gweithredu ar Iechyd a Diogelwch** Roedd y Cynllun Gweithredu Drafft wedi'i ddiweddaru wedi'i rannu â'r grŵp. Cyflwynir y cynllun gweithredu yng Nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Rhagfyr fel rhan o'r Adroddiad Iechyd a Diogelwch blynyddol. **Camau Gweithredu:** Pennaeth Gwasanaethau Pobl.
8	**Swydd Rheoli Risg Tân yn Gorfforaethol** Roedd hyn wedi'i gyflwyno ar gais y Grŵp Iechyd a Diogelwch Adfer Natur yn dilyn eu cyfarfod ar 17 Medi 2026. Cytunwyd y dylid llunio Gweithdrefn ar y Cynllun Gweithredu Argyfwng Tân i'w hystyried gan y grŵp hwn. Roedd angen datblygu gweithdrefn o gyfathrebu ac ymgysylltu. Rhan o grŵp tanau gwyllt Sir Benfro. Roedd yr Awdurdod yn cael ei gynrychioli ar y Grŵp Cynllunio at Argyfwng. Roedd y trefniadau rheoli tân i'w hymgorffori yn y cynlluniau safle sydd wedi'u teilwra yn benodol ar gyfer y safle hwnnw. **Camau gweithredu** – Y rheolwyr i graffu ar y cynlluniau safle.
9	**Polisi Diogelwch Personol** Roedd y Polisi Gweithio ar eich Pen eich Hun yn ymwneud â'r polisi hwn. Roedd y Polisi wedi'i adolygu yn 2023 ond heb ei benderfynu yn derfynol. Yn dilyn trafodaeth fer yn tynnu sylw at y newidiadau, cytunwyd i wneud y newidiadau hyn a chyflwyno'r Polisi gerbron cyfarfod nesaf y Cynrychiolwyr Staff. **Camau Gweithredu:** Pennaeth Gwasanaethau Pobl.
10	**Polisi Gyrru at Ddibenion Gwaith** Roedd terfyn oedran uchaf o 70 oed i'w gyflwyno o fis Ionawr 2027 o ran gyrwyr bysiau mini sy'n eiddo neu sydd ar brydles i'r Awdurdod. Rhaid i yrwyr y Fflyd Lwyd gyflwyno tystiolaeth yn flynyddol bod ganddynt yswiriant busnes, trwydded cronfa ffyrdd, a thystysgrif MOT yn ôl y gofyn. **Camau gweithredu:** Adnoddau Dynol i newid y weithdrefn ar gyfer gyrwyr fflyd llwyd. **Camau gweithredu:** Adnoddau Dynol i gysylltu â'r Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata ynghylch cyfleu'r newidiadau hyn. **Camau Gweithredu**: Y Swyddog Datblygu Gwirfoddoli i hysbysebu'r cyfleoedd gwirfoddoli fel gyrrwr bws mini.

11	**Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch** Roedd nifer o asesiadau risg yn dal heb eu cwblhau. Rhaid adolygu'r asesiadau hyn erbyn y cyfarfod nesaf fis Ionawr 2027. Roedd amlder yr adolygu i'w ystyried yn ôl y risg. Lle penderfynir y gellir ymestyn y cyfnod adolygu, yna bydd y grŵp hwn yn cytuno ar hynny. **Camau Gweithredu** : Pawb i gynnal unrhyw asesiadau risg a neilltuwyd iddynt sydd heb eto eu cyflawni. **Camau Gweithredu** : Pawb i adolygu amlder yr adolygiadau risg, ac adrodd yn ôl i'r grŵp hwn i'w cadarnhau.
12	**Gwersi a Ddysgwyd o'r Adegau Tywydd Twym** Nid oedd unrhyw ganllawiau gan yr HSE ynghylch y tymheredd uchaf yn y gweithle. Ystyriwyd anghenion gwahanol adrannau, a phatrymau gwaith yn cael eu newid i osgoi rhan dwymaf y dydd. Rhoddwyd PPE, dŵr ac eli haul angenrheidiol i bob aelod o staff oedd yn gweithio yn yr awyr agored ac mewn tymheredd uchel.
13	**Adborth y Grŵp Cynrychiolwyr Staff** Nid oedd Cynrychiolydd Staff yn bresennol.
14	**Adborth yr Undeb Llafur** Nid oedd unrhyw sylwadau gan Unsain.
15	**Unrhyw Fater Arall** Adroddiadau ar delemateg cerbydau a gyrru ar gyflymder rhy uchel. Cytunwyd i gyfeirio'r mater hwn ac ymddygiad gyrwyr ymlaen i'r cyfarfod nesaf. Daeth y cyfarfod i ben am 16.30pm.
16	**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf 12fed o Ionawr 2027.**